# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol David Hughes

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol David Hughes yn gymuned gynhwysol lle mae llawer o ddisgyblion yn cael profiad dysgu cefnogol ac ysgogol. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos parch tuag at athrawon a chyfoedion, ac yn cymryd rhan yn weithgar mewn trafodaethau pâr neu mewn grŵp. Mae llawer o athrawon yn annog disgyblion i weithio'n bwrpasol ac yn rheoli eu dosbarthiadau'n effeithiol, gan sicrhau amgylchedd dysgu cadarnhaol. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw'r addysgu yn ddigon effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn cael eu herio'n llawn. Er enghraifft, mewn rhai achosion, nid yw'r gweithgareddau'n  ddigon heriol, a gall gormod o arweiniad gan yr athro gyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu hannibyniaeth.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar ddarparu'r addysg orau i holl ddisgyblion yr ysgol. Mae arweinyddiaeth yr ysgol yn gadarn. Er bod yr uwch dîm arwain yn gefnogol o'i gilydd, nid yw rolau a chyfrifoldebau o fewn y tîm wedi'u dosrannu'n deg, ac o ganlyniad, nid ydynt yn gweithio'n ddigon strategol. Mae systemau hunanwerthuso yn darparu mewnwelediad defnyddiol i gryfderau a meysydd i'w gwella, ond mae angen eu miniogi ymhellach i sicrhau bod pob maes sy'n gofyn am sylw yn cael ei dargedu'n effeithiol.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar les disgyblion, gyda thîm bugeiliol ymroddedig sy'n darparu cefnogaeth unigol i'r rhai sydd ei hangen. Mae canolfannau cefnogi lles disgyblion yn cynnig amgylchedd diogel i ddisgyblion sy'n wynebu heriau, gan eu helpu i ailgysylltu â'u dysgu. Trwy weithio gyda'r awdurdod lleol a sefydliadau allanol, mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at gymorth arbenigol, pan fo angen.

Mae presenoldeb yn bryder, gyda chyfraddau'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Er bod systemau olrhain addas ar waith, mae angen dulliau mwy effeithiol i adnabod a mynd i'r afael â'r heriau sy'n effeithio ar bresenoldeb.

Mae barnau disgyblion yn dylanwadu'n gryf ar fywyd yr ysgol, gyda chyngor ysgol gweithgar sy'n cydweithio ag uwch arweinwyr i fynd i'r afael â materion megis bwlio. Mae system adrodd ddigidol wedi cynyddu hyder disgyblion i adrodd problemau, ac mae gwefan y cyngor ysgol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i rieni a'r gymuned. Mae grwpiau thematig yn cyfrannu'n gadarnhaol at ethos yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys y grŵp UNICEF sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a'r grŵp Cymreictod sy'n dathlu diwylliant Cymru drwy weithgareddau yn y gymuned leol.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm cytbwys sy'n rhoi cyfleoedd dysgu cyfoethog i ddisgyblion, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol a phartneriaethau â darparwyr addysg ôl-16. Mae rhaglen iechyd a lles gynhwysfawr yn helpu disgyblion i ddatblygu gwytnwch ac ymwybyddiaeth o faterion megis iechyd meddwl a straen. Mae holiaduron disgyblion a chyfraniadau rhieni yn dylanwadu ar ddatblygiad y cwricwlwm, gan sicrhau ei fod yn berthnasol i'w hanghenion.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Gwella'r addysgu trwy godi disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni a chynyddu lefel yr her i ddisgyblion o bob gallu

A2 Gwella presenoldeb

A3 Addasu cyfrifoldebau'r uwch dîm arwain fel bod pawb yn gweithio'n strategol

A4 Miniogi prosesau cynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn mynd i'r afael yn llawn â'r meysydd i'w gwella yn yr adroddiad

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â gwaith y cyngor ysgol a'i gwaith yn y gymuned leol, i'w rhannu ar wefan Estyn.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/04/2025